# Atodiad 1

Mae'r tabl isod yn nodi beth sydd ar y gweill ar gyfer pob prosiect, yn ychwanegol i'r tabl a gynhwysir yn 4.2.

| Prosiect | Ar y gweill |
|---|---|
| 1a | Safleoedd: Glan Wnion (5 uned) - gwaith adeiladu ar y gweill; 35 Ffordd y Coleg, Bangor (3 uned) - wrthi'n trafod les a chytundeb lefel gwasanaeth; Ffordd yr Ala, Pwllheli (2 uned) - gwaith uwchraddio ar y gweill; 137 Stryd Fawr Bangor (12 uned) - gwaith adeiladu ar y gweill |
| 1b | Gwaith wedi dechrau Chwefror 2023, disgwylir i gwblhau yn gynnar 2024. |
| 1c | Edrych ar safle ym Mangor i'w brynu er mwyn ei drosi yn unedau hunangynhaliol - ystyried hyfywedd a'r manteision ac anfanteision. Trafodaethau gyda phartneriaid ar y gweill i drafod trefniadau |
| 1ch | - Wedi llwyddo i ddenu £2.7m ar gyfer y cynllun yma<br>- Mae 19 perchennog eiddo wedi ymrwymo i les ar y cynllun, ac 14 arall ar gamau gwahanol yn y broses, e.e. disgwyl prisiau yn ôl ar gyfer uwchraddio 10 fflat, a 4 eiddo arall yn cael eu harchwilio. |
| 1d | Wedi sefydlu'r gefnogaeth iechyd meddwl a 40 unigolyn yn derbyn cefnogaeth ar hyn o bryd. Cefnogaeth uniongyrchol gyda gwasanaethau iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau ar gael sy'n osgoi amseroedd aros hir ac apwyntiadau coll. Hyn wedi arwain at atal rhai tenantiaid rhag bod yn ddigartref. Gweithiwr Iechyd Meddwl hefyd yn cydweithio'n agos gyda Hergest i gynllunio ar gyfer symud ymlaen yn gydlynus a threfnus. |
| 1dd | Adeilad Mona (Caernarfon) wedi'i glustnodi ar gyfer y datblygiad yma, cynlluniau amlinellol wrthi'n cael eu drafftio er mwyn sgopio'r gwaith |
| 2a | - Mae 88 uned wrthi'n cael ei godi ar draws y sir, a 133 arall wedi'i glustnodi ar gyfer y flwyddyn nesaf. Mae cyllideb 2023/24 yn £13.5m ac rydym wedi llwyddo i ddenu cyllid ychwanegol yn sgil tanwariant awdurdodau lleol eraill (tua £1.1m yn 2020/21. £1.1m yn 2021/22 a £727k eleni).<br>- Trafodaethau ar y gweill i gryfhau'r cyfathrebu rhwng y cymdeithasau tai a'r Cyngor er mwyn adlewyrchu'r bartneriaeth dai yn weledol ar safleoedd datblygu.<br>- Trwy gydweithio gyda'r cymdeithasau tai a negodi gyda'r Llywodraeth, rydym wedi llwyddo i ddod â rhai cynlluniau ymlaen yn gynt. |
| 2b | Mae Clwyd Alyn wrthi'n ymgynghori gyda chynghorau cymuned lleol, ac mae gweithdai'n cael eu cynnal yn fuan i drafod trefniadau'r math o lety fydd ar y safle |
| 2c | Noder bod y cynllun hwn a chynllun 3b yn cael eu trin fel yr un cynllun bellach er mwyn prynu tai i'w gosod i bobl Gwynedd - gweler 3b am ddiweddariad |
| 3a | Safle Coed Mawr yn dechrau yn haf 2023 (10 tŷ), safleoedd eraill wedi'u clustnodi ar gyfer datblygu: Maes Twnti, Morfa Nefyn – briff wedi'i ddarparu i fynd allan i dendr i benodi penseiri; safle hen Dŷ'r Ysgol Llanrug – gwaith ar faterion draenio ar y gweill; hen lyfrgell Llanberis – proses gynllunio ar fin dod i ben. |
| 3b | Pryniant 9 tŷ ar y gweill. Wrthi'n datblygu nodwedd ar wefan y Cyngor fydd yn galluogi i bobl Gwynedd gysylltu gyda ni ynglŷn â thai i'w gwerthu |
| 3c | - Prif negeseuon yr holiadur anghenion tai (Ardal Ni 2035) wedi'u sefydlu, disgwyl ymateb ynghylch dadansoddiad manwl<br>- Bwriedir penodi swyddog ymchwil i sefydlu gwir angen tai gan gynnwys tai gofal y sir - gweithio gyda'r Adran Oedolion a Phlant ar hyn o bryd. |
| 3ch | Wrthi'n asesu bron i 1,000 eiddo sydd â chymal 157 arnynt yn Arfon a Meirionnydd. Y casgliad mwyaf yn y Bala (276) ac Abermaw (119). Gwaith cymhleth iawn gan fod geiriad pob cymal fymryn yn wahanol ac felly'n gweithio trwy bob un yn unigol. Sgôp i gynyddu'r targed unedau ar gyfer y prosiect hwn yn y dyfodol |
| 3d | Cynllun heb ddechrau |
| 3dd | Gwariant wedi'i gymeradwyo £137,140.20; 25 uned ar y gweill - 7 yn Arfon, 4 yn Nwyfor, a 14 ym Meirionnydd, naill ai'n cael eu hasesu gan swyddogion, yn y broses gyfreithiol neu ddisgwyl dogfennau gan yr ymgeiswyr |
| 3e | Yr Uned Drethi, Adran Cyllid yn delio gydag ymholiadau yn barhaus. |
| 3f | Nifer o ymgeiswyr ar gamau gwahanol yn y broses, e.e. Angen cyflwyno dogfennau (12), asesu ceisiadau (4), wedi cymeradwyo ac yn chwilio am eiddo (8) ac yn y broses o gwblhau (9) |
| 3ff | Mae tir ym Mynytho wedi'i gwblhau fydd â lle i 4 tŷ arno, hyn yn ychwanegol i Faes Twnti a gwblhaodd haf 2022 (9 tŷ). Hefyd wedi prynu tir ynghlwm â safle Frondeg, Caernarfon fydd yn hwyluso gofal ychwanegol a thai cymdeithasol. Hefyd wedi prynu tir i hwyluso mynediad i'n safle ni yn Llanystumdwy. Mae ymchwil parhaus ar safleoedd eraill hefyd. |
| 3g | Cynllun heb ddechrau |
| 3ng | Mae'r gwaith hwn yn digwydd yn naturiol pan fo'r angen yn codi, ac mae cysylltiad cryf rhwng y cynllun hwn a'r cynlluniau prynu tai |
| 4a | Swyddogion wedi'u penodi (gweddill y gwariant i ddilyn dros gyfnod y Cynllun). Cynghorwyr Ynni wedi helpu nifer o bobl Gwynedd gyda thalebau ynni a chyngor ar effeithlonrwydd ynni, ynghyd â mynychu a chynnal cynadleddau a digwyddiadau ynni |
| 4b | Podiau Caernarfon wedi cwblhau a thenantiaid yn byw mewn 3 ohonynt. Y pod olaf i gael ei lenwi dros y misoedd nesaf. |
| 4c | Mae'r cynllun hwn yn cael ei drin a'i redeg ar y cyd â chynllun 3a - gweler uchod am ddiweddariad |
| 5a | Yn disgwyl briff cyflawn gan y Gwasanaeth Plant o'u gofynion ar gyfer cartrefi bychain. Y Gwasanaeth Plant yn y broses o drefnu ymweliad i fodel "cartref bychan" yn Ynys Môn. |

| | |
|---|---|
| 5b | Cyfle i ddatblygu cyfran helaeth o amcanion y prosiect hwn ar safle Frondeg Caernarfon (gyda safleoedd eraill yn dilyn mewn rhannau eraill o'r sir). Ar hyn o bryd mae swyddogion yn negodi i brynu tir cyfochrog er mwyn ehangu maint y safle a chynyddu'r cyfleoedd ac amrywiaeth o ddarpariaeth ar y safle (gan gynnwys gofal estynedig a thai cymdeithasol). |
| 5c | Grŵp Cynefin yn disgwyl cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer ffynhonnell ariannu ar gyfer gwedd 1 |
| 5ch | Ymweliad wedi digwydd yn Nhŷ'r Ysgol Llanrug, yr eiddo yn cwrdd â gofynion Oedolion, ac felly gwaith pellach yn cael ei wneud i ystyried gwaith addasu er mwyn cyfarch anghenion darpar breswylwyr. Ymweliadau eraill yn cymryd lle mewn tai a fflatiau ar draws y sir er mwyn asesu addasrwydd. |
| 5d | - Rydym wedi sefydlu grŵp arbenigol trawsadrannol i drafod achosion fel hyn er mwyn ymateb yn rhagweithiol i anghenion.<br>- 17 addasiad ar y gweill gan gynnwys 6 sydd bron â chwblhau (gwerth £713k), 2 ar y gweill (gwerth £144k) a 9 wedi'i glustnodi i ddechrau'n fuan (gwerth £777k) |
| 5dd | Bydd cyfleuster Frondeg newydd ar gyfer anableddau dysgu yn dod ymlaen fel rhan o brosiect mwy i ddatblygu'r safle. Gweler diweddariadau Prynu Tiroedd (3f) a Thai gofal estynedig - henoed (5b) |
| 5e | 2 achos ar y gweill (2 uned gyda 4 person ymhob uned, gwerth £20,514 rhyngddynt) |
| 5f | 850 ceisiadau wedi cwblhau hyd at heddiw i flwyddyn 2022/23 |
| 5ff | Y cynlluniau yma yn caniatáu i bobl ag anableddau aros yn eu cartrefi neu gael eu rhyddhau o'r ysbyty i gartref sy'n addas i'w hanghenion. Mae'r cynlluniau hyn wedi arbed £1.5m i'r GIG a £7.6m i gymdeithas ers dechrau'r Cynllun Gweithredu. |
| 6 | Sgyrsiau'n parhau gyda phartneriaid a sefydliadau eraill i ddysgu gwersi a sefydlu arferion da; Strwythur staffio priodol wrthi'n cael ei drafod; sefydlu trefniadau SPOA; dadansoddi ymatebion holiadur a rannwyd yn gyhoeddus fis Ionawr eleni; trafodaethau yn parhau gyda TG ar sefydlu system gofnodi a chadw data ac rydym yn ffyddiog y bydd system yn ei le yn ystod y mis neu ddau nesaf. |